# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Cyngor Sir Penfro

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016



Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6947-1



Mae’r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.




Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad eu gwasanaethau.




Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.



Os ydych chi am wybod beth ddywedodd y bobl ag anableddau dysgu, edrychwch am y bocsys melyn.



# Cynnwys


Cyflwyniad 3




Sut wnaethon ni'r gwaith 7




Diolch 10

Cyngor Sir Benfro 14

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 53




# Cyflwyniad



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.



Rydyn ni'n gwirio a yw cynghorau lleol yn helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaetha gofal a chymorth yn:



- gweithio'n dda



- o safon dda




- diogel



Gofynnon ni gwestiynau am bob un o'r 22 cyngor lleol.





Aethon ni i weld 6 chyngor lleol.




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o'r 6 chyngor lleol




**Dyma'r adroddiad am Sir Benfro**



Gweithion ni'n agos â:

- Phobl yn Gyntaf Cymru gyfan a'r fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gwnaethon nhw ein helpu ni i wirio sut mae gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.




Mae'r adroddiad hwn yn dweud:



- beth wnaethon ni ei ddarganfod



- beth rydyn ni'n meddwl y mae angen i Gyngor Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei wneud




# Sut wnaethon ni'r gwaith




Roedden ni am gael yr atebion i 3 chwestiwn:




1. A yw Cyngor Sir Benfro a'r Bwrdd Iechyd yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol?

2. Pa mor dda y mae Cyngor Sir Benfro a'r Bwrdd Iechyd am:




- roi gwybodaeth, cyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal

3. A oes gan Gyngor Sir Benfro a'r Bwrdd Iechyd weledigaeth glir, ac yw pobl eraill yn cefnogi'r weledigaeth honno?

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

AGGCC CSSIW



Dyma beth wnaethon ni i gael yr atebion.

Edrychodd AGGCC ar Gyngor Sir Benfro.




- Llenwodd Cyngor Sir Benfro holiaduron i ni.




- Edrychon ni ar adroddiadau arolygiadau am wasanaethau yn Sir Benfro.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan â'u haelodau a phobl eraill yn Sir Benfro. Dywedon nhw wrthon ni beth ddywedodd pobl.




- Treulion ni bythefnos yn Sir Benfro. Gwnaethon ni:



- edrych ar ffeiliau 20 o bobl



- darganfod mwy am 8 o'r bobl hynny



- siarad â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol



- Aethon ni i ganolfannau dydd, prosiectau byw â chymorth a chartrefi gofal.




- mynd i sgwrs gan Gyngor Sir Benfro a'r Bwrdd Iechyd am sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y Bwrdd Iechyd.



- Cawson ni wybod am 4 person sy'n cael cymorth y mae gofal iechyd a chymdeithasol yn talu amdano.



- Edrychon ni ar eu ffeiliau. Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol. Gwnaethon ni gwrdd â'r bobl a'u teuluoedd.




- Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr yn y Bwrdd Iechyd.




- Cawson ni gyfarfodydd gyda staff o'r tîm iechyd anableddau dysgu cymunedol a'r gwasanaeth ymyrraeth ymddygiad cadarnhaol.



- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Benfro gyflwyniad i ni am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.






# Diolch

Rhoddodd llawer o bobl eu hamser, eu help a'u syniadau. Rydyn ni am ddweud diolch i:



- bobl ag anableddau dysgu



- gofalwyr teuluol




- staff a rheolwyr yng Nghyngor Sir Benfro



- staff a rheolwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



- darparwyr gwasanaethau

# Cyngor Sir Benfro

## Ynglŷn â Chyngor Sir Benfro




Mae tua 124,000 o bobl yn byw yn Sir Benfro.




Rydym yn credu bod tua 2,298 o oedolion ag anableddau dysgu yn byw yn Sir Benfro.




Mae'r Cyngor yn gwybod am 768 o oedolion ag anableddau dysgu.




- Mae 81 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn




- Mae gan 197 o bobl reolwr gofal




- Mae 172 o bobl yn cael adolygiad




- Nid oes gan 192 o bobl reolwr gofal ac nid oes angen adolygiad arnyn nhw

Mae Cyngor Sir Benfro yn rhan o Gydweithfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru



Aelodau'r Gydweithfa yw:

- Cynghorau Powys, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



- darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol



- sefydliadau gwirfoddol




Mae'r Gydweithfa am i bobl sydd angen gofal iechyd a chymdeithasol i gael bywydau gwell.




Mae'r aelodau yn helpu pobl i gael bywydau gwell drwy feddwl gyda'i gilydd, cynllunio gyda'i gilydd a gwneud newidiadau gyda'i gilydd.



**Pethau da am Gyngor Sir Benfro**



- Mae'r Cyngor yn gwybod bod angen iddo wneud yn well.



- Mae rhai staff a rhai arweinwyr tîm yn gwneud gwaith da.



## Anawsterau cynllunio



Nid yw'r Cyngor wedi gwneud gwasanaethau anableddau dysgu yn flaenoriaeth.



Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor weledigaeth glir. Nid oes gan y Cyngor gynllun clir ar gyfer y dyfodol.



Mae'r Cyngor yn gwybod bod angen iddo wneud yn well.



Mae rhai o'r newidiadau mae angen i'r Cyngor eu gwneud yn rhai brys.



Nid yw Cynghorwyr wedi edrych yn fanwl ar wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu am amser hir.



Nid oes gan y Cyngor 'hyrwyddwr anableddau dysgu'. Mae hyn yn golygu nad yw un o’r cynghorwyr â'r gwaith o siarad dros bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



Mae gwasanaethau oedolion wedi cael 4 rheolwr newydd ers Tachwedd 2014. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gynllunio.



Nid yw'r Cyngor yn gwybod:



- os yw pobl yn cael y cymorth iawn i gael y bywyd y maen nhw am ei gael



- os yw'n gwario ei arian yn dda





Nid oes gan y Cyngor gynllun ar gyfer:



- gwrando ar syniadau pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol




- gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd i ysgrifennu cynllun ar gyfer y dyfodol




## Gwneud cynlluniau



Mae angen i'r Cyngor wneud newidiadau mawr i:




- ofal a chymorth pobl




- arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol



Dangosodd y Cyngor gynllun drafft i ni ar gyfer dewis a phrynu gwasanaethau. Mae gan y cynllun 4 o werthoedd. Un o'r rhain yw 'cydweithio'.



Mae angen i'r Cyngor ddangos arweinyddiaeth, a dangos y bydd yn gweithio'n galed i wneud yr hyn y mae'r cynllun yn ei ddweud. Mae angen iddo wneud yn siŵr y gall pobl ag anableddau dysgu gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.

Mae'r Cyngor yn bwriadu:



- ysgrifennu cynllun ar gyfer pa fath o wasanaethau fydd eu hangen arno yn y dyfodol



- newid sut mae'n trefnu gofal seibiant




- cael mwy o staff i weithio gyda phobl ar eu cynlluniau gofal ac adolygiadau



- cael tîm adolygu

Mae'r Cyngor yn gwneud pethau i geisio gwella'r ffordd y maen nhw:



- yn cynllunio sut i ddewis, prynu a gwirio gwasanaethau



- yn gwirio ansawdd y gwasanaethau



- yn rheoli timau a gwasanaethau



- yn edrych ar ble mae pobl yn byw ac a oes ganddyn nhw'r cymorth iawn




Mae'r Cyngor yn dechrau meddwl am wasanaethau ar gyfer y dyfodol. Ond mae angen iddo wneud hyn gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol. Mae angen hefyd iddo weithio'n agosach gyda'i staff ei hun.





Nid oes gan y Cyngor weledigaeth.




Yn y gorffennol, nid oedd y Cyngor yn siarad gyda'i staff am weledigaeth i bobl ag anableddau dysgu. Nid oedd yn siarad gyda'r staff am y ffordd yr oedd am i’r Gwasanaethau Cymdeithasol drin pobl ag anableddau dysgu.



Mae'r Cyngor wedi dechrau siarad gyda staff am y pethau hyn.




Mae angen i'r Cyngor fod yn glir ynghylch sut y bydd yn gwneud yn well. Dylai pawb fod yn gallu gweld ei fod yn gwneud yn well.



## Gwneud newidiadau



Pan wnaethon ni arolygu'r Cyngor roedd yn newid y ffordd y mae'n trefnu gwasanaethau.




Roedd rheolwyr newydd yn dechrau gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd gan y staff syniadau da am sut i wella gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu.




Mae gan y Tîm Cymunedol ar gyfer Anableddau Dysgu:



- reolwr tîm newydd



- uwch ymarferydd newydd



Gall y rheolwr tîm a’r uwch ymarferydd weld beth sydd angen ei newid, ac mae ganddyn nhw rai syniadau da. Mae angen cymorth arnyn nhw gan uwch reolwyr.



Nid yw'r newidiadau wedi dechrau eto i wneud bywyd yn well i bobl ag anableddau dysgu. Mae'n rhy gynnar i ddweud os bydd y newidiadau yn gwneud bywyd yn well i bobl yn y dyfodol.




Ar ddiwrnod olaf ein harolygiad, rhoddodd y Cyngor eu cynllun ni. Mae'r cynllun yn dweud sut byddan nhw’n gwneud gwasanaethau yn well. Mae angen i'r Cyngor wneud beth mae’r cynllun yn ei ddweud yn gyflym.

Efallai y bydd Cydweithfa Canolbarth a Gorllewin Cymru yn helpu'r Cyngor i gynllunio a gwneud newidiadau.

Er enghraifft, mae gan y Gydweithfa weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae angen i Gyngor Sir Benfro feddwl am y weledigaeth hon a sut y byddai'n gwneud pethau'n well i bobl yn Sir Benfro.



Mae angen i Gyngor Sir Benfro wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol. Mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr bod pawb yn deall y weledigaeth hon.



## Cydweithio




Mae arweinwyr, rheolwyr a staff am i iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd.



Weithiau mae staff iechyd a staff gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Ond nid yw hyn yn digwydd bob amser. Mae staff yn ei chael yn anodd i gynllunio cymorth gyda'i gilydd i bobl sydd angen llawer o ofal a chymorth.



Pan fydd iechyd **a** gofal cymdeithasol yn talu am gymorth rhywun, nid ydyn nhw'n gwneud adolygiad ar y cyd.



Dywedodd staff fod cael systemau cyfrifiadurol gwahanol yn ei gwneud yn anodd i weithio gyda'i gilydd.



Nid yw'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio'r gwasanaethau iawn gyda'i gilydd.




Mae gan Gydweithfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin a Chanolbarth Cymru gynllun a fydd yn gwneud cydweithio'n haws.




## Hawliau pobl



Mae rhai pobl yn cael eu cefnogi i wybod a defnyddio eu hawliau.




Mae rhai pobl yn rhan o'u cymuned, yn byw yn eu cartref eu hunain ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.



Ond nid yw hyn yn wir am bawb.



- Mae llawer o bobl â chynlluniau gofal gwael.



- Mae rhai pobl yn cael eu hesgeuluso gan y Cyngor.



- Mae cartref a gofal rhai pobl yn cael eu darparu gan yr un gwasanaeth byw â chymorth.



Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr ei fod yn dweud wrth ddarparwyr gwasanaeth i roi hawliau pobl yn gyntaf.



## Cael llais

Gall pobl ag anableddau dysgu gael cymorth i ddweud eu dweud gan:



- grwpiau hunaneiriolaeth



- Pobl yn Gyntaf Sir Benfro



- gwasanaethau dydd

- Dewis CIL, sydd â gwasanaethau eiriolaeth



Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn cael dweud eu dweud am eu cynllun gofal eu hunain.



Nid yw'r Cyngor wedi bod yn dda am roi llais i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



Nid yw'r Cyngor wedi bod yn dda am weithio gyda nhw na gofyn am eu syniadau am y dyfodol.



Er enghraifft, nid oedd y Cyngor wedi dweud wrth bobl ei fod yn cau eu canolfan ddydd. Clywodd rhai pobl am y peth ar y radio ar y ffordd i'r ganolfan ddydd.




Mae'r Cyngor nawr wedi gwneud cynllun i ymgynghori â phobl am ddyfodol gwasanaethau dydd.



Mae angen i staff gael llais hefyd. Mae'r Cyngor yn cynllunio diwrnod yn **Chwefror 2016** pryd y gall yr holl staff gyfarfod i feddwl am y dyfodol a dweud eu dweud.





**Cynlluniau pobl**



Mae gan rai pobl gymorth da a chynllun gofal da.




Mae mwy o bobl yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol.



**"Yr wyf yn ddigon hapus gyda'r cyngor. Yr wyf yn derbyn taliadau uniongyrchol; byddai'n stori wahanol os byddai'r rhain yn dodi ben. Rwy'n talu am gynorthwyydd personol sy'n fy neall ac yn fy helpu. "**



Mae angen i'r rhan fwyaf o bobl gael:



- llais cryfach




- cynllun gofal sy'n seiliedig ar y bywyd y maen nhw ei eisiau



- eu gwerthfawrogi yn fwy gan eu rheolwr gofal



Mae system dyletswydd yn y tîm cymunedol. Mae'r system dyletswydd yn cael ei defnyddio i drefnu pethau fel adolygiadau a gofal seibiant. Nid yw hyn yn ffordd dda o drefnu'r pethau hyn.




Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau wedi cael eu hysgrifennu'n wael. Nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau yn cael eu gwirio gan reolwr i wneud yn siŵr eu bod wedi eu hysgrifennu'n dda. Gwelon ni ffeil un person gyda nodiadau am rywun arall ynddi.



Roedden ni'n poeni am ddau o bobl. Nid oedden ni'n siŵr eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel.




Roedd 129 o bobl wedi bod yn aros mwy na blwyddyn i gael eu cynllun gofal wedi'i adolygu.



Nid oes gan rai pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal gynllun diweddar. Nid yw rhai pobl wedi gweld rheolwr gofal am flynyddoedd.



**"Yr wyf yn cwrdd â fy ngweithiwr cymdeithasol i gael adolygiad blynyddol bob 2/3 mlynedd. Yn amlwg, nid ydyn nhw'n rhoi blaenoriaeth i mi "**



**"Roedd gen i weithiwr cymdeithasol yn Llundain. Pan symudais i Sir Benfro 5 mlynedd yn ôl roeddwn i'n gobeithio y byddwn yn cael un yma. Rwyf wedi trio bob dim, ond nid ydw i wedi cael un. Felly, nid oes gen i berson proffesiynol i droi atyn nhw am help."**



## Staff




Mae rhai rheolwyr gofal yn gwneud gwaith da iawn.

**Nid** yw'r rhan fwyaf o reolwyr gofal yn gwneud gwaith da. Rydyn ni'n credu fod hyn oherwydd nad ydyn nhw'n cael y cymorth iawn.



Nid ydyn ni'n credu ei fod oherwydd eu bod nhw'n rheolwyr gofal gwael.



Dywedodd rhai staff nad oedden nhw wedi cael eu dysgu sut i feddwl am y bywyd y mae pobl ei eisiau a sut i'w cefnogi i gael y bywyd hwnnw.



Mae angen i uwch reolwyr ac arweinwyr eraill ddatrys pethau pan nad yw rheolwyr gofal yn gwneud gwaith da.




Mae staff newydd sydd â syniadau da ac am wneud gwaith da. Rhaid i uwch reolwyr ac arweinwyr eraill eu cefnogi nhw.



Mae'r Cyngor am i staff drin pobl ag anableddau dysgu gyda pharch. Felly mae angen i'r Cyngor drin ei staff gyda pharch.




## Gwybodaeth a chyngor



Weithiau mae'n anodd cael gwybodaeth a chyngor am gymorth a gwasanaethau.

Nid oes unrhyw wybodaeth hawdd ei defnyddio am wasanaethau yn Sir Benfro.





## Cyfathrebu




Weithiau mae'n anodd i siaradwyr Cymraeg gael gwybodaeth a chymorth yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd i gael staff sy'n siarad Cymraeg.




Mae'r Cyngor yn cadw rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg. Mae ganddyn nhw rywun sydd i fod i atgoffa pawb i feddwl am yr iaith Gymraeg.




Nid oedd ffeiliau pobl yn dangos a oedd rheolwyr gofal yn meddwl am eu hanghenion cyfathrebu.



## Lle mae pobl yn byw



Mae'r Cyngor wedi sefydlu tîm i edrych ar ble mae pobl yn byw. Mae'r tîm yn gwirio a yw pobl yn cael y cymorth iawn.



Mae hyn yn anodd oherwydd nad yw rheolwyr gofal yn aml yn gwybod pa gymorth sydd ei angen ar bobl i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.




Nid oes cynllun i edrych ar ba gymorth sydd ei angen ar bobl nawr, neu pa gymorth y bydd ei angen ar bobl yn y dyfodol.



Weithiau, mae’r landlord byw â chymorth hefyd yn darparu gofal a chymorth.



Nid yw hyn yn dda. Mae'n ei gwneud yn anodd i bobl ddewis gyda phwy maen nhw'n byw. Mae'n golygu nid ydyn nhw'n gallu dewis eu cartref a dewis eu cymorth gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth.



**Gofalwyr teuluol**




Roedd cwrdd â gofalwyr teuluol yn rhan o'r arolygiad. Gwnaethon ni gwrdd hefyd â gofalwyr teuluol mewn cyfarfod gyda'r Cyngor am newidiadau i wasanaethau dydd.



Dywedodd gofalwyr teuluol:

- mae rhai rheolwyr gofal yn dda



- mae staff y gwasanaeth dydd yn gwneud gwaith da



- mae'n anodd gweithio allan pwy i gysylltu â nhw os oes angen help



- nid yw rhai adolygiadau yn dda iawn




- nid ydyn nhw'n gweld llawer o'r uwch reolwyr




Nid yw llawer o asesiadau gofalwyr teuluol yn rhai diweddar. Ond mae rhai gofalwyr teuluol yn cael asesiadau da.



Mae’r fforwm gofalwyr ar gyfer yr holl ofalwyr teuluol yn Sir Benfro. Nid yw'n cwrdd yn rheolaidd. Mae'n anfon cylchlythyr 3 gwaith y flwyddyn.



Nid oes unrhyw fforwm ar gyfer gofalwyr teuluol pobl ag anableddau dysgu yn unig.



Mae’r swyddog gofalwyr yn meddwl am ffyrdd o estyn allan i ofalwyr teuluol pobl ag anableddau dysgu.




## Cadw pobl yn ddiogel

I gadw pobl yn ddiogel mae angen:



- gwasanaeth diogelu da



- rheoli gofal da



- gwirio da i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn ddiogel



Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud yn well yn yr holl bethau hyn.



Mae gan Sir Benfro dîm i gadw pobl yn ddiogel. Mae llawer o swyddi gwag yn y tîm, gan gynnwys swydd y cydlynydd.



Mae hyn yn golygu nad oes digon o staff. Mae hyn wedi bod yn broblem ers 2013.

Mae'r Cyngor wedi penodi yn ddiweddar:



- rheolwr i wirio ansawdd y gwaith i gadw pobl yn ddiogel



- rheolwr diogelu oedolion a phlant




Mae cynllun i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn gwybod ei fod yn cadw pobl yn ddiogel. Ond mae'n anodd cael staff i wneud beth mae'n ei ddweud yn y cynllun.



Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw un yn y Cyngor yn gwirio a yw'r Cyngor yn gwneud gwaith da o gadw pobl yn ddiogel.



Nid yw ffeiliau pobl bob amser yn dangos a ydyn nhw'n cael eu cadw'n ddiogel.



Roedd 33 o gyfarfodydd diogelu oedolion i bobl ag anableddau dysgu yn 2015-16. Mae hyn yn golygu roedd 33 o ymchwiliadau.



Nid oedd yr un o'r bobl hyn wedi cael cynhadledd achos. Mae cynhadledd achos:




- yn gwirio beth wnaeth yr ymchwiliad ei ddarganfod




- yn cytuno ar gynllun i gadw rhywun yn ddiogel



- yn cynnwys y person sydd mewn perygl




Weithiau mae angen cyfyngu ar ryddid person i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel. Rheolwr y gwasanaethau iechyd meddwl sy'n gyfrifol am hyn.



Mae 10 o bobl ag anableddau dysgu yn aros am asesiad i weld a oes angen cyfyngu ar eu rhyddid.



Rydyn ni’n credu bod y nifer hwn yn isel. Rydyn ni’n credu y gallai fod angen asesiad ar fwy o bobl ag anableddau dysgu.




Rydyn ni’n credu y bydd y Cyngor yn dod o hyd i fwy o bobl sydd angen asesiad os yw'r Cyngor yn cymharu gwybodaeth am:



- benderfyniadau am gyfyngu ar ryddid rhywun



- diogelu oedolion




- gwybodaeth am wasanaethau

## Beth mae angen i Gyngor Sir Benfro ei wneud



- Mae angen gweledigaeth a chynllun ar gyfer y dyfodol ar Gyngor Sir Benfro.



- Dylai pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol gael eu gwahodd i roi eu syniadau am y dyfodol, ac am y math o wasanaethau y maen nhw eu heisiau. Dylai pobl gael cynnig cymorth i ddweud eu dweud.




- Mae angen i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i gilydd ar gynllun ar gyfer dewis a phrynu gwasanaethau. Rhaid i'r cynllun fod yn seiliedig ar wybodaeth am y cymorth sydd ei angen ar bobl i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



- Ni ddylai'r cynllun fod am y math o wasanaethau sydd gan Sir Benfro nawr yn unig. Rhaid i'r cynllun gael syniadau newydd, a syniadau am sut y bydd iechyd a gofal cymdeithasol yn rhedeg gwasanaethau gyda'i gilydd.



- Mae angen i gynlluniau gofal ac adolygiadau i wella ar frys. Rhaid i gynlluniau ac adolygiadau:



  - gael eu gwneud ar yr adeg iawn



  - sôn am y bywyd y mae person ei eisiau a'r cymorth y bydd ei angen arnyn nhw i gael y bywyd hwnnw



  - yn hawdd i wirio i weld a yw pobl yn cael y bywyd y maen nhw ei eisiau




  - cael eu hysgrifennu'n dda



Rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr bod staff a chynghorwyr yn cefnogi ei gynlluniau ar gyfer gwneud yn well. Mae hyn yn golygu:



- cynnwys staff a chynghorwyr




- rheoli'r prosiect yn dda i wneud yn siŵr bod popeth yn cael ei wneud



- gwirio ansawdd gwaith y staff ac ansawdd y gwasanaethau



- rhaid i bobl weld yr arweinwyr yn arwain




Mae gan y Cyngor gynllun ar gyfer cadw pobl yn ddiogel. Mae'n rhaid i'r Cyngor:



- wirio bod staff yn gwneud beth mae’r cynllun yn ei ddweud



- gwirio bod y cynllun yn helpu i gadw pobl yn ddiogel



- gwneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod



Mae angen i'r Cyngor gael rhestr o bawb sydd â’r un landlord byw â chymorth ar gyfer eu cartref a’u gofal a chymorth.



Dylai'r Cyngor lunio cynllun ar gyfer y tenantiaid hyn i wneud yn siŵr:




- bod eu hawliau dynol yn cael eu cefnogi



- bod eu lleisiau'n cael eu clywed



- bod ganddyn nhw ddewis am ble maen nhw’n byw a phwy sy'n eu cefnogi



Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr y gall cynghorwyr wirio a yw pobl ag anableddau dysgu yn cael gofal a chymorth da.



Dylai Cynghorwyr feddwl am ddewis hyrwyddwr i siarad dros bobl ag anableddau dysgu.




**Rhaid i Gyngor Sir Benfro ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Dylai Cyngor Sir Benfro anfon copi o'u cynllun aton ni.**




**Byddwn ni'n gwirio a yw Cyngor Sir Benfro yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud yn ei gynllun.**

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## Ynglŷn â Bwrdd Iechyd



Mae gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn cynnwys:



- tîm iechyd cymunedol



- tîm Ymyrraeth a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol




Mae'r tîm iechyd cymunedol yn rhan o Dîm Anableddau Dysgu Cymunedol Sir Benfro. Maen nhw'n gweithio yn yr un adeilad â'r tîm gofal cymdeithasol.

Mae gwasanaethau iechyd anableddau dysgu yn rhan o Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd.

## Pethau da am y Bwrdd Iechyd





- Mae'r tîm cymunedol yn gwneud llawer o waith i wneud yn siŵr bod meddygon, staff ysbytai a staff iechyd eraill yn gwybod sut i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.



- Mae aelod o staff a pherson ag anableddau dysgu yn ymweld â meddygfeydd teulu gyda'i gilydd. Maen nhw'n dweud wrth y meddyg teulu sut beth yw defnyddio meddygfa teulu os oes gennych chi anableddau dysgu.




- Mae'r tîm lleferydd ac iaith wedi cael ffordd newydd i wirio pa gymorth sydd ei angen i rywun. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i'w defnyddio.



- Mae'r tîm yn gwneud llawer o waith da i atal problemau bach rhag dod yn rhai difrifol. Er enghraifft, maen nhw'n rhoi cymorth am ymddygiad i wneud yn siŵr nad oes rhaid i bobl adael eu cartref.



**Cael y cymorth iawn yn Sir Benfro**



Mae angen llawer o ofal a chymorth ar rai pobl oherwydd eu hymddygiad.



Weithiau mae rhywun yn gofyn i bobl adael eu cartrefi oherwydd eu hymddygiad. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddyn nhw adael Sir Benfro, oherwydd ni all Cyngor Sir Benfro roi'r cymorth iawn i'r bobl hyn.




Mae'r Tîm Ymyrraeth a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PIBS) yn gwneud gwaith da i wneud yn siŵr nad yw pobl yn gorfod gadael eu cartref. Mae'r tîm yn cefnogi'r person, ac maen nhw'n cynorthwyo'r bobl sy'n gofalu amdanyn nhw a gweithio gyda nhw.





Mae'n mynd yn fwy anodd i bobl gael cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl, oni bai ei fod yn argyfwng. A phan mae argyfwng, mae rhai pobl yn cael eu rhoi mewn uned iechyd meddwl nad yw'n gwybod sut i gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Mae angen i hyn stopio digwydd.



Ni allai'r tîm iechyd ddod o hyd i'r cymorth iawn i rywun oedd angen llawer o ofal a chymorth, ac roedd angen cymorth arno oherwydd ei ymddygiad. Felly gweithiodd y tîm iechyd gyda'r tîm gofal cymdeithasol i gael y cymorth iawn i'r person.



Nid yw pawb yn cael y cymorth iawn yn Sir Benfro. Er enghraifft:



- rhai pobl sy'n mynd i drwbl gyda'r gyfraithneu y gallen nhw fynd i drwbl gyda'r gyfraith



- rhai pobl sydd angen gofal seibiant, ac angen llawer o ofal a chymorth




Roedd person oedd wedi symud yn ôl i Sir Benfro yn gweld nad oedden nhw'n cael y cymorth iawn o hyd. Siaradon ni gydag uwch reolwyr am hyn. Dywedon nhw eu bod yn ceisio cael y cymorth iawn i'r person hwn.



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gael gwybod beth sydd ei angen ar bobl. Yna gallan nhw gynllunio'r gwasanaethau iawn yn Sir Benfro.

## Gwasanaethau newydd yn y dyfodol



Nid oes gan Sir Benfro nyrsys cyswllt iechyd. Mae'r rhain yn bobl sy'n gwneud yn siŵr bod meddygon, staff ysbytai a staff iechyd eraill yn gwybod sut i gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Mae staff y tîm iechyd yn gweithio gyda meddygon, staff ysbytai a staff iechyd eraill i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y cymorth iawn ar hyn o bryd.





Mae'r tîm iechyd wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd am arian i ddechrau gwasanaeth cyswllt iechyd.



Rydyn ni'n credu bod gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor gynlluniau da ar gyfer gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau iawn ar gael yn y dyfodol.



Mae'r Bwrdd Iechyd am stopio problemau bach rhag dod yn fwy difrifol. Un syniad yw creu tîm o staff i helpu pobl pan fydd eu problemau yn dechrau troi yn fwy difrifol.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych am fwy o adeiladau i'w defnyddio ar gyfer gofal seibiant. Ar hyn o bryd, mae’n rhaid i bobl fynd i Lanelli ar gyfer gofal seibiant.




Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn y tîm iechyd. Ond gall fod yn anodd i bobl sy'n siarad Cymraeg i gael gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud rhywbeth am hyn.




## Cynlluniau a gwasanaethau pobl

Cawson ni wybod am 4 o bobl y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn talu am eu cymorth.




Roedd pob un o'u cynlluniau yn dda. Roedd y staff sy'n gweithio gyda nhw yn gwneud gwaith da. Roedd ganddyn nhw gynlluniau da. Roedd y  cynlluniau yn dangos bod eu rheolwr gofal iechyd wedi gwrando arnyn nhw a'u cynnwys nhw wrth ysgrifennu'r cynllun.



Mae staff iechyd yn adnabod y bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw yn dda. Mae staff iechyd yn siarad ar eu rhan ac yn eu helpu i ddweud eu dweud am benderfyniadau.




Mae staff iechyd wedi gweithio gyda staff gofal cymdeithasol i gael y cymorth iawn i bobl. Nid ydyn nhw wedi cynnig gwasanaethau a oedd yno yn barod i bobl yn unig.



Weithiau mae pobl yn cael y cymorth iawn dim ond pan fydd argyfwng.



Mae pobl ifanc yn cael cymorth wrth iddyn nhw ddod yn oedolion. Ond mae hyn yn digwydd dim ond ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i'r ysgol.



Mae rhai pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael eu haddysgu yn y cartref. Mae'r tîm iechyd yn meddwl am sut i wneud yn siŵr bod y bobl ifanc hyn yn cael cymorth wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.



Roedd pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn dweud pethau da am y cymorth iechyd y maen nhw’n ei gael.



Mae pobl yn hoffi cael yr un gweithiwr iechyd am flynyddoedd. Dywedodd gofalwyr teuluol fod y gweithwyr iechyd yn cadw mewn cysylltiad â nhw.



Maen nhw’n siarad ar eu rhan ac yn eu helpu i ddweud eu dweud. Maen nhw’n teimlo eu bod nhw’n bartneriaid cyfartal gyda'r nyrsys cymunedol.



## Cydweithio




Am y flwyddyn ddiwethaf, mae staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.




Mae staff gofal cymdeithasol yn dweud wrth staff iechyd os bydd rhywun angen cymorth gan y tîm iechyd. Maen nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i gwrdd ag anghenion pobl.




Mae'r tîm iechyd yn gweithio'n dda gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a sefydliadau gwirfoddol.



Mae'r tîm iechyd yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael:



- archwiliadau iechyd blynyddol gan eu meddyg teulu



- ymweliadau â'r deintydd



- unrhyw archwiliadau ysbyty sydd eu hangen arnyn nhw



Mae pobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a'r Bwrdd Iechyd yn siarad â'i gilydd ac ymddiried yn ei gilydd. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd a Phobl yn Gyntaf Sir Benfro yn gwneud llawer o waith gyda'i gilydd, gan gynnwys:

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board




- holiaduron adborth cleifion





- rhoi hanes y claf i'r bwrdd gwasanaeth iechyd




- meddwl am ffyrdd i wirio ansawdd y gwasanaethau



- grŵp sy'n cyfarfod i feddwl am y dyfodol



Mae cael systemau cyfrifiadurol gwahanol yn ei gwneud yn anodd i weithio gyda'i gilydd. Yn aml mae angen i staff siarad â'i gilydd yn hytrach na defnyddio'r system gyfrifiadurol.




Mae'r tîm iechyd yn ceisio gwneud yn siŵr bod pobl yn cael adolygiad ar y cyd os yw iechyd a gofal cymdeithasol yn talu am eu cymorth.




## Rheolaeth, arweinyddiaeth a gweledigaeth




Mae cynllun ar gyfer 2014-2018. Mae gwneud beth mae'r cynllun yn ei ddweud wedi dechrau'n araf.

Mae hyn oherwydd bod y rheolwyr yn cadw newid.




Mae cynlluniau i gydweithio â Chyngor Sir Benfro wedi bod yn mynd yn araf. Rydyn ni'n credu bod y cynlluniau yn cyflymu.



Dywedodd staff wrthon ni fod cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ond maen nhw'n dweud nad oedden nhw wedi cael llais wrth wneud y cynlluniau.




Mae angen i hyn newid. Mae angen i staff deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Mae angen iddyn nhw wybod beth yw gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol.



Mae panel sy'n gwneud penderfyniadau am brynu gwasanaethau gofal a chymorth. Mae cael y gwasanaethau iawn a gweithio allan pwy fydd yn talu amdanyn nhw yn anodd.




Nid yw r hai pobl yn cael y cymorth iawn. Mae hyn yn golygu na all rhai pobl ddefnyddio eu hawliau dynol.




Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor wedi ysgrifennu cynllun ar gyfer cydweithio. Mae hyn yn rhan o waith Cydweithfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin a Chanolbarth Cymru.



Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn credu bod y pethau hyn yn bwysig:



- cael un ffeil wedi'i rhannu ar gyfer pob person sydd ag anableddau dysgu, a chadw'r ffeil yn ddiweddar



- cael un ffordd i gysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol, fel nad oes angen i bobl gysylltu â dau dîm gwahanol



- rhannu eu harian fel y gallan nhw brynu gwasanaethau at ei gilydd




- cael mwy o wasanaethau preifat ac annibynnol




- ysgrifennu cynlluniau gofal sy'n gadael i bobl ddefnyddio gwahanol fathau o wasanaeth



- adolygu gwasanaethau dydd

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud yn well wrth wneud yn siŵr bod:



- gan reolwyr wybodaeth am unrhyw broblemau, yn meddwl am y wybodaeth, yna'n gwneud gwasanaethau'n well



- gwasanaethau iechyd yn gwirio beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu, fel y gallan nhw wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y gwasanaethau iawn yn y dyfodol

Rydyn ni'n credu y bydd y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn gallu gwneud newidiadau da yn y dyfodol.




## **Cadw pobl yn ddiogel**



Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm, a'u gwaith nhw yw cadw pobl yn ddiogel. Mae'r tîm yn mynd yn fwy.



Mae staff yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n credu y gall rhywun fod mewn perygl, yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.




Pan ddechreuon ni ein harolygiad, nid oedd y Bwrdd Iechyd bob amser yn gwybod beth mae'r tîm iechyd cymunedol yn ei wneud i gadw pobl yn ddiogel. Ond ar ddiwedd ein harolygiad roedd ganddyn nhw ffordd newydd i wirio hyn.

## Beth sydd angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei wneud



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod ganddo'r gwasanaethau iawn, yn cynnwys:



- y gwasanaethau iawn pan fydd angen i rywun adael ei gartref mewn argyfwng



- y gwasanaethau iawn i bobl a oedd wedi gorfod gadael Sir Benfro i gael y cymorth iawn i allu symud yn ôl



- y gwasanaethau iawn i bobl sy'n mynd i drwbl gyda'r gyfraith neu y gallen nhw fynd i drwbl gyda'r gyfraith




- y gwasanaethau iawn i bobl sydd angen llawer o ofal a chymorth, a phobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad



Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Sir Benfro i ddod o hyd i ffyrdd gwell o weithio gyda'i gilydd ar ddewis, prynu a gwirio gwasanaethau.



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr ei fod yn gwrando ar bobl ag anableddau dysgu. Mae angen iddo ddefnyddio adborth i wneud gwasanaethau yn well.



Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod staff yn teimlo'n rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae angen iddyn nhw wybod beth yw gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol.




Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod ei system gyfrifiadurol yn gweithio'n dda ac yn helpu staff i wneud eu gwaith.




**Mae gan y Bwrdd Iechyd bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd anfon y cynllun i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**




**Rhaid i'r cynllun ddweud**




- **beth fydd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud am y pethau yn yr adroddiad hwn**




- **pryd fyddan nhw'n ei wneud**
  **Dylai'r Bwrdd Iechyd wirio nad yw'r un problemau yn digwydd yn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.**




**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan mae wedi gwneud yr hyn y mae'r cynllun yn ei ddweud.**

**Mae gan y Bwrdd Iechyd bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**